

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD DDISGRIFIAD

Adran	Iechyd, Diogelwch a Lles
Swydd	Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles
Rhif Swydd	502884
Gradd	16
Lleoliad	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Cyfrifol i	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol
Cyfrifol am	Cynghori Cyfarwyddwyr, Rheolwyr a'r holl bersonél ar holl faterion diogelwch, iechyd a lles i sicrhau bod GTADC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, yn unol â chyfraith y DU ac Ewrop. Yn ogystal â rheolaeth llinell uniongyrchol: <ul style="list-style-type: none">• 1 x Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Cynorthwyol• 2 x Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles• 1 x Gweinyddwr Iechyd, Diogelwch a Lles
Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol	Cyllid Blynyddol Cyfredol £25,000C

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn cyfeirio at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw o reidrwydd yn rhestru'n fanwl yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

I weithredu fel y person cymwys ar gyfer pob maes Iechyd, Diogelwch a Lles ar draws y Gwasanaeth ac arwain Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles proffesiynol sy'n darparu cyngor Iechyd, diogelwch a lles o ansawdd dda, sy'n gyson gywir ac arbenigol yn ogystal â chymorth ymarferol ar bob agwedd ar reoli Iechyd a diogelwch. I sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr/gwirfoddolwyr Awdurdod Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol yn unol â deddfwriaeth y DU ac Ewrop a datblygu a darparu diwylliant Iechyd a diogelwch cadarnhaol ar draws y Gwasanaeth cyfan.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Prif Ddyletswyddau

1. Gweithredu fel y person cyfrifol cymwys ar gyfer rheoli lechyd, Diogelwch a Lles o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel sy'n ofynnol gan ddarpariaethau statudol y DU ac Ewropeaidd (e.e. Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a Rheoli lechyd a Diogelwch Rheoliadau 1999).
2. Gweithio'n uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaeth a'i gefnogi i ddatblygu cyfeiriad strategol iechyd, diogelwch a lles o fewn y Gwasanaeth.
3. Darparu atebion corfforaethol, strategol a ffocws partner busnes i reoli iechyd, diogelwch a lles yr holl weithwyr/gwirfoddolwyr, ymwelwyr/contractwyr ac unrhyw un arall a allai gael ei effeithio gan weithredoedd busnes Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
4. Datblygu, darparu a rheoli'r strategaeth lechyd, Diogelwch a Lles ar y cyd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol megis arweinwyr Meddygol lechyd Galwedigaethol a Swyddog Diogelu'r Gwasanaeth.
5. Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth, gan gynnal ymchwiliadau sy'n ymwneud â digwyddiadau RIDDOR a digwyddiadau eraill lle bo'n briodol; gwneud penderfyniadau ar gamau adferol neu ataliol er mwyn parhau i wella darpariaeth gwasanaeth.
6. Cyflawni, monitro ac adolygu'r gofynion lechyd, Diogelwch a Lles o dan 'Gynllun Dirprwy' Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.
7. Gwerthuso'n barhaus newidiadau i ddeddfwriaeth lechyd a diogelwch a'r effeithiau ar y Gwasanaeth; darparu atebion i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn unol â chanllawiau statudol.
8. Mae'r rôl yn cynnwys effaith uniongyrchol fawr iawn ar les nifer sylweddol o bobl, sy'n gweithio o fewn ac yn ddibynnol ar ymyriadau Gwasanaethau Tân ac Achub; cynnwys asesu anghenion grwpiau perthnasol a phennu sut y dylid darparu rhaglenni priodol yn unol â Deddfwriaeth lechyd a Diogelwch. Yn gyfrifol am wneud penderfyniadau proffesiynol a fydd yn effeithio ar les gweithwyr unigol a grwpiau o weithwyr yn y dyfodol.
9. Teithio ledled y DU i gynrychioli Grŵp Ymarferwyr lechyd, Diogelwch a Lles Cymru Gyfan a Chadeirio Grŵp Ymarferwyr lechyd, Diogelwch a Lles Cymru Gyfan mewn cyfarfodydd rhanbarthol. Cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan ddefnyddio sgiliau cynllunio dadansoddol a barnu i gyfrannu'n hyfedr at gyfarfodydd/rhaglenni iechyd, diogelwch a lles cenedlaethol, rhanbarthol a lleol megis gweithgorau/grwpiau/pwyllgorau a phaneli yn unol â gofynion y Sefydliad.

10. Cymryd perchnogaeth am bolisiâu a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a lles a darparu prosesau o ansawdd, proffesiynol a chyson drwy ddatblygu, cydgysylltu, monitro ac adolygu'r polisiâu a gweithdrefnau perthnasol o fewn cyfnodau adolygu wedi'u rhaglennu.
11. Darparu cyngor/arweiniad proffesiynol a chywir fel y bo'n briodol i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh), Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Technegol ac Uwch Reolwyr Gwasanaeth eraill i'w diweddarau ar ddatblygiadau mewn polisi a gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch a Lles.
12. Sicrhau bod dangosyddion perfformiad ystadegol, (mewnol ac allanol) yn cael eu datblygu, eu cynnal a'u hadolygu drwy feincnodi effeithiol yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyrrff llywodraethu e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Llywodraeth Cymru a CCPT. Adrodd yn chwarterol ac yn flynyddol yn erbyn y dangosyddion hyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Technegol, yr Awdurdod Tân, yr UDRh ac archwilwyr allanol gan gyfeirio camau priodol pan fydd materion yn codi.
13. Rheoli, a lle bo angen, deithio i gartref/gwaith y gweithlu i gynnal asesiadau damcaniaethol ac ymarferol a pharatoi a dilyn adroddiadau ceisiadau meddygol, i'w defnyddio'n fewnol ac yn allanol e.e. rhaglen 'Mynediad i Waith', a sicrhau bod gofynion a nodwyd yn cael eu gweithredu yn dilyn ystod o asesiadau gan y tîm Iechyd, Diogelwch a Lles ar ran personél y Gwasanaeth. Sicrhau bod triniaeth/casgliad effeithiol yn cael ei sicrhau er mwyn helpu i gyfyngu ar y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i salwch/anafiadau gan arwain at well darpariaeth gwasanaeth.
14. Cynllunio, cyfarwyddo, cydgysylltu, cynnal a gwerthuso archwiliadau iechyd, diogelwch a lles a, lle bo'n briodol, adrodd ar y canfyddiadau mewn cydweithrediad â gwasanaethau grwpiau cymheiriaid. Sefydlu a chyfarwyddo ffrydiau gwaith o ganfyddiadau unrhyw weithdrefnau ar gyfer cynllunio, gweithredu a monitro iechyd a diogelwch, gan gynnwys adolygu asesiadau risg, adrodd am ddamweiniau ac ystadegau ac ati, casglu, adolygu ac adrodd ar feysydd sy'n peri pryder ac unrhyw gamau gweithredu a argymhellir o fewn amserlenni sefydliadol.
15. Ymgysylltu â sefydliadau trydydd parti i sicrhau bod archwiliad priodol wedi'i gynnal, er mwyn caniatáu i drydydd partion wneud eu gwaith yn ddiogel ar safleoedd GTADC, e.e. Aseswyr NVQ, contractwyr.
16. Datblygu cynlluniau cymorth chwarterol a blynyddol a strategaeth 3 blynedd, ar gyfer y Gwasanaeth, i gyflawni, hyrwyddo a monitro'r strategaeth iechyd, diogelwch a lles, a sicrhau bod amcanion hirdymor y sefydliad yn cael eu cyflawni.

17. Adnabod, datblygu a chynnal strategaeth hyfforddiant iechyd, diogelwch a lles sy'n cyd-fynd ag egwyddor y Gwasanaeth o ddilyniant gweithlu er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth y cymwyseddau priodol.
18. Sefydlu a hyrwyddo strategaeth gyfathrebu effeithiol sy'n hyrwyddo diwylliant iechyd, diogelwch a lles cadarnhaol sy'n integreiddio ym mhob agwedd ar weithgareddau'r Gwasanaeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, gwybodaeth diogelwch critigol amser, cylchlythyrau a diweddariadau gweithredol. Sicrhau bod gwybodaeth broffesiynol yn cael ei lledaenu mewn modd a ddeallir gan ystod o bartïon i ddarparu'r modd mwyaf effeithiol a defnyddiol er budd yr unigolion a'r Gwasanaeth yn gyffredinol.
19. Rheoli, paratoi a monitro'r gyllideb refeniw iechyd, diogelwch a lles, adolygu'r gyllideb ac adrodd yn uniongyrchol i'r adran gyllid, yn y rôl fel llofnodwr terfynol, a sicrhau bod gwariant yn cael ei gadw o fewn terfynau y cytunwyd arnynt.
20. Cydweithio gyda darparwyr yswiriant a chyfreithiol y Gwasanaeth i fonitro, adolygu, adrodd a lleihau'n rhagweithiol nifer yr achosion o ddamweiniau a hawliadau damweiniau, gyda'r nod o gyfyngu ar yr effaith ariannol gysylltiedig ar y Gwasanaeth.
21. Cadw'n gyffredol â newidiadau deddfwriaethol a gwelliant parhaus i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn adlewyrchu gofynion y newidiadau hyn ac yn addas i'r diben.
22. Adolygu cyfleoedd yn gyson i wella perfformiad y Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles mewn modd cost effeithiol.

Dyletswyddau Cyffredinol

23. Rheoli ac arwain y tîm iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd trwy sefydlu blaenoriaethau, cydlynu gweithgareddau gwaith a monitro safonau ac ansawdd cynnyrch. Teithio'n gyson ledled y Gwasanaeth i sicrhau ansawdd effeithiolrwydd y gwaith a gwblhawyd gan aelodau'r tîm i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyrrff statudol.
24. Adolygu perfformiad blynyddol a pharatoi adroddiad blynyddol am ddamweiniau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, perfformiad tîm ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles ar gyfer y cyfarwyddwr, yr UDRh, yr Awdurdod Tân ac ar gychwyn prosesau newydd neu rai wedi'u diweddaru.
25. Teithio i ystod o safleoedd i roi cyngor proffesiynol cywir i weithwyr, contractwyr ac aelodau'r cyhoedd yn ystod digwyddiadau GTADC a gynhelir ar orsafoedd ac ar safleoedd trydydd parti i sicrhau bod

Awdurdod Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

26. Mynychu a monitro digwyddiadau ac ymarferion gweithredol yn ôl yr angen a darparu cyngor cyfrinachol ar lechyd, Diogelwch a Lles i aelodau'r Gwasanaeth fel y bo'n briodol, i gydlynu lliniaru risg ar gyfer atal damweiniau; yn aml mewn sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym lle mae'r risg lawn yn aml yn anhysbys
27. Goruchwyllo pob agwedd ar y gwasanaeth datgelu o ran materion iechyd a diogelwch e.e. hawliadau ymgyfreitha, dyfarniadau adran gwaith a phensiynau, ac ati a chydgyssylltu fel y bo'n briodol gyda'r sefydliadau perthnasol.
28. Cynorthwyo â datblygu'r cynlluniau cyfarwyddiaeth a chorfforaethol o ran rheoli risg iechyd a diogelwch i gyflawni amcanion y sefydliad a datblygu cynlluniau adran/tîm i gefnogi'r rhain.
29. Monitro, adolygu a chynnal portffolio cadarn, cyfoes o asesiadau risg. Cefnogi staff sy'n gyfrifol am lunio asesiadau risg i sicrhau bod y mesurau rheoli priodol yn eu lle a bod y risg hysbys mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.
30. Datblygu, caffael a chynnal systemau cadarn, awtomataidd a swyddogaethol sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i gyflwyno darpariaeth iechyd a diogelwch hunanwasanaeth effeithiol e.e. ffurflenni adrodd am ddamweiniau iechyd a diogelwch awtomataidd, llyfrgell o gyhoeddiadau iechyd a diogelwch, llyfrgell asesiadau risg ac ati.
31. Cynnal a goruchwyllo gwerthusiadau personol blynyddol a datblygiad personol aelodau'r tîm lechyd, Diogelwch a Lles; gan eu galluogi i fodloni gofynion newidiol sy'n wynebu'r tîm ac ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi a chefnogi gofynion unigol ill ddau.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r raddfa a'r swydd.
- Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- Gweithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am

eich iechyd a'ch diogelwch eich hun a phobl eraill y gallai eich gweithredoedd/anweithiau effeithio'n andwyol arnynt.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth gyflawni'r rôl uchod, mae'n ofynnol i holl weithwyr y Gwasanaeth arsylwi a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, bob amser yn:

- Broffesiynol
- Ofalgar
- Barchus
- Ymroddedig
- Ddibynadwy
- Ddynamig
- Ddisgybledig
- Hydwyth

DS: Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio'n aml rhwng safleoedd ledled De Cymru ac ymhellach i ffwrdd. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol

